

**CABINET**  
**16 CHWEFROR 2021**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol trwy Webex ddydd Mawrth 16 Chwefror 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Cyllid Strategol, Ymgynghorydd Polisi Strategol, Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**

Y Cyngorydd: Patrick Heesom.

**89. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**90. COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2021 eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

**91. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2021/22 – CAM CLO TERFYNOL**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ac esboniodd fod adroddiadau llawn am y camau blaenorol yn y broses i osod cyllideb ar gyfer 2021/22 ynghlwm â'r adroddiad.

Ym mis Ionawr, gosododd y Cabinet ofyniad ychwanegol ar gyfer isafswm cyllideb uchaf 2021/22 sef £16.750m a gofyniad ar gyfer isafswm cyllideb isaf sef £13.873m. Roedd y ffigur uchaf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyfarniadau cyflog cenedlaethol o 2% i bawb, ac nid oedd darpariaeth yn y ffigur isaf ar gyfer cyflogau. Defnyddir y ffigur isaf at ddibenion mantoli'r gyllideb gan nad oes darpariaeth yn natganiad cyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer unrhyw ddyfarniadau cyflog blynyddol yn y sector cyhoeddus, ac eithrio dyfarniadau cyflog i weithwyr â chyflogau sy'n llai na £24,000 y flwyddyn. O ganlyniad i hynny, nid yw Llywodraeth Cymru (LIC) wedi derbyn cynnydd yn y cyllid i gefnogi unrhyw ddyfarniadau cyflog blynyddol ar gyfer athrawon a gweithwyr llywodraeth leol.

Gwnaeth y Cabinet ym mis Ionawr hefyd ystyried y materion a oedd angen eu cloi fel rhan o'r broses gosod cyllideb. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig atebion i'r holl faterion hynny ac yn gosod argymhellion er mwyn i'r Cyngor allu llunio cyllideb gyfreithiol a chytbwys.

Roedd ymateb ffurfiol y Cyngor i ymgynghoriad LIC ar Setliad Dros Dro i Lywodraeth Leol 2021/22 wedi'i gynnwys gyda'r adroddiad. Roedd yr ymateb yn llawn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan y Cabinet ar y cyd, yn ogystal â safbwyntiau'r corff o Aelodau etholedig.

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r penderfyniad ynghylch Treth y Cyngor ar gyfer gosod lefelau trethu 2021/22. Cynigiwyd penderfyniad ffurfiol i'w roi gerbron y Cyngor yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i roi gwybod eu bod wedi derbyn praeseptau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a phob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir y Fflint. Roedd y Cyngor wedi gosod cyfeiriad amlwg i gadw'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn is na 5%. Roedd cynigion y gyllideb yn cynnwys cynnydd cyffredinol o 3.95% i gwrdd â gofynion y gyllideb, yn cynnwys 3.45% ar gyfer cyllidebau'r Cyngor a 0.5% fel cyfraniadau rhanbarthol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Crwner. Roedd hyn yn gyfystyr â chynnydd wythnosol o £1.32.

Mae'r adroddiad yn cynnwys tablau, a sylwebaeth, ar y materion canlynol:

- Tabl 1: Gofyniad Ychwanegol Diwygiedig y Gyllideb ar gyfer Isafswm 2021/22;
- Tabl 2: Atebion Arfaethedig Cyllideb 2021/22;
- Tabl 3: Cyllideb Arfaethedig 2021/22; a
- Thabl 4: Rhagolygon Tymor Canolig 2022/23 - 2023/24

Derbyniodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yr adroddiad ar 11 Chwefror 2021 a chafodd ei gefnogi'n unfrydol.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad i gefnogi'r adroddiad. Roedd un o'r sleidiau allweddol yn dangos crynodeb o'r atebion arfaethedig a oedd yn dangos y gofyniad ar gyfer y gyllideb ddiwygiedig a sut y gellid ei ostwng i £0.000m yn seiliedig ar y canlynol:

- Cynnydd yn y Setliad Dros Dro;
- Arbedion Effeithlonrwydd Corfforaethol;
- Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol;
- Treth y Cyngor; a
- Lleihau'r Cyfraniad i'r Arian Wrth Gefn.

Cynigiwyd y byddai tâl Band D Sir y Fflint yn 3.95%, sydd -0.20% yn llai na chyfartaledd Cymru, a -1.04 yn llai na chyfartaledd Cynghorau Lloegr.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion am y risgiau agored yn 2021/22 a'r arian wrth gefn sydd heb ei glustnodi. Esboniodd pa mor bwysig yw adeiladu ar y cronfeydd wrth gefn er mwyn diogelu yn erbyn y risgiau agored ac ar gyfer y dyfodol. Felly, cafodd cyfraniad ychwanegol o £0.471m ei gynnwys yng nghynigion y gyllideb er mwyn sicrhau bod o leiaf £2.0m o arian wrth gefn ar gael mewn argyfwng ar ddechrau 2021/22.

Rhodddwyd cyngor ffurfiol gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, gan gynnwys ei farn broffesiynol, sef:

“Mae gosod cyllideb ynghanol argyfwng cenedlaethol yn rhywbeth na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae graddfa a hyd y pandemig yn gosod heriau ariannol sylweddol a fydd yn parhau i'r flwyddyn ariannol newydd; mae'r cymorth a groesawir gan y Gronfa Galedi genedlaethol yn debygol o barhau ond ni wyddwn am ba hyd y gellir cynnal hyn; mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys risgiau agored sylweddol ynghylch cyflogau a'r galw am ofal cymdeithasol; mae'n hanfodol diogelu'n llawn yr Arian At Raid a'r Cronfeydd Wrth Gefn mewn Argyfwng er mwyn diogelu yn erbyn y risgiau hyn ac unrhyw ddigwyddiadau eraill na ellir eu rhagweld; mae'r gyllideb a argymhellir yn adlewyrchu dull cytbwys sy'n seiliedig ar risg”.

Dyma farn broffesiynol y Prif Weithredwr:

“Mae'r gyllideb wedi'i llunio yn unol â'r model gosod cyllideb rydym wedi'i fabwysiadu; rydym wedi cymryd camau doeth a chytbwys fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac egwyddorion llywodraethu da; mae'r Cyngor yn derbyn nad oes gostyngiadau newydd i gostau nac arbedion effeithlonrwydd o raddfa; mae'r Cyngor, fel y'i cynghorwyd gan y Cabinet, yn cytuno â'r cyngor hwn ac rydym wedi diogelu pob gwasanaeth; mae ein strategaeth i sicrhau cyllideb gyfreithiol a chytbwys yn dibynnu'n fawr ar gael digon o Gyllid gan y Llywodraeth; rydym yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer y dyfodol yn eglur yn yr ymateb i'r Setliad Dros Dro”.

Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Prif Weithredwr am yr holl waith mae wedi'i wneud gyda chyllid y Cyngor dros nifer o flynyddoedd, gan gofio mai dyma'r tro olaf y bydd yn gosod cyllideb yn yr awdurdod.

Diolchodd hefyd i drigolion Sir y Fflint am eu cydweithrediad yn ystod y cyfnod clo a'i gwnaeth yn bosibl i blant y Cyfnod Sylfaen ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth i gael dysgu wyneb yn wyneb o 22 Chwefror. Diolchodd hefyd i holl weithwyr Cyngor Sir y Fflint am y gwaith roedden nhw wedi'i wneud yn ystod y pandemig, a oedd wedi golygu bod yn rhaid i nifer o wasanaethau weithio mewn ffyrdd gwahanol.

Ni wnaed y penderfyniad ynghylch cynyddu Treth y Cyngor ar chwarae bach, ond diolchodd i'r swyddogion am y gwaith a wnaed er mwyn sicrhau y gellir argymhell i'r Cyngor gynnydd sy'n is na 5% yn Nhreth y Cyngor. Croesawodd y buddsoddiad mewn ysgolion, yn enwedig ar gyfer ysgolion uwchradd sy'n gweithredu ar ddiffyg yn y gyllideb a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mynegodd y Cynghorydd Banks ganmoliaeth i'r swyddogion am y parhad yn narpariaeth gwasanaethau craidd y Cyngor, a diolchodd i Lywodraeth Cymru am eu cymorth. Croesawodd yntau'r buddsoddiad mewn ysgolion, ac roedd yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig i'r cronfeydd wrth gefn.

Diolchodd y Cynghorydd Bithell i'r Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Cynghorydd Roberts a'r Cynghorydd Banks am y llythyr safonol a

anfonwyd at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i amlinellu'r anawsterau mae Sir y Fflint yn eu hwynebu fel awdurdod lleol.

Rhoddodd y Cyngorydd Butler gymeradwyaeth hefyd i'r holl staff am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer ohonyn nhw hefyd yn delio â salwch a phrofedigaeth. Roedd nifer o weithwyr wedi gwirfoddoli i gael eu hadleoli i feysydd eraill lle roedd y galw'n uchel ac ymgymryd â dyletswyddau na fydden nhw'n eu gwneud fel arfer.

Soniodd y Cyngorydd Thomas am y grantiau roedd y Cyngor wedi gwneud cais amdanynt a'r ffyrdd arloesol y cawsant eu defnyddio, gyda swyddogion bob amser yn ceisio bod yn effeithlon a pharhau i ddarparu'r hyn roedd disgwyl iddynt ei wneud.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi a chymeradwyo'r diwygiad yng ngofynion y gyllideb ar gyfer 2021/22;
- (b) Cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer yr arbedion effeithlonrwydd corfforaethol a fydd yn cyfrannu at y gyllideb;
- (c) Y bydd y Cabinet yn argymhell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor yn seiliedig ar y cyfrifiadau a amlinellir yn yr adroddiad;
- (ch) Nodi'r risgiau agored sydd angen parhau i'w rheoli yn ystod 2021/22;
- (d) Y bydd y Cabinet yn argymhell cynnydd blynyddol o 3.95% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2021/22, a bydd yn gwahodd y Cyngor i basio'r penderfyniad swyddogol ynghylch Treth y Cyngor gan fod hysbysiad bellach wedi'i dderbyn am braeseptau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a phob Cyngor Tref a Chymuned yn Sir y Fflint; a
- (dd) Nodi'r rhagolygon tymor canolig fel sail ar gyfer adolygiad nesaf y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

## **92. CYNLLUN BUSNES ARIANNOL 30 BLYNEDD Y CYFRIF REFENIW TAI (HRA)**

Cyflwynodd y Cyngorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i Gynllun Busnes Ariannol 30 Blynedd y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) a'r Gyllideb HRA ar gyfer 2021/22.

Roedd hi'n ofynnol i'r Cyfrif Refeniw Tai lunio Cynllun Busnes 30 blynedd sy'n amlinellu'r cyd-destun strategol ar gyfer cyllideb tai 2021/22 ac roedd yn cynnwys:

- Sicrhau bod fforddiadwyedd i'n tenantiaid yn greiddiol i'n hystyriaethau;
- Sicrhau bod costau ein gwasanaethau'n effeithlon ac yn cynnig gwerth am arian;
- Sicrhau bod strategaeth rheoli'r trysorlys yn parhau i fodloni gofynion benthyca newydd a pharhaus y Cyfrif Refeniw Tai;
- Pennu cyllideb fantoledig gydag o leiaf 4% o refeniw dros ben dros wariant;

- Manteisio i'r eithaf ar arbedion effeithlonrwydd refeniw i leihau benthyca;
- Parhau i ddarparu Tai Cyngor wedi eu hadeiladu o'r newydd;
- Cynnal yr ysgogiad i sicrhau bod cartrefi'n effeithlon o ran ynni; a
- Darparu cyfalaf digonol i gynnal lefelau Safon Ansawdd Tai Cymru.

Mae Polisi Rhent Llywodraeth Cymru wedi ei osod am 5 mlynedd yn dechrau yn 2020/21 ac mae'n darparu ar gyfer cynnydd blynyddol o CPI+1%. Argymhellwyd felly y dylid rhoi cynnydd cyffredinol o 0.68% i bob tenant ac, yn ychwanegol, rhoi codiad pontio o £2 i denantiaid sy'n talu o leiaf £3 o dan y targed rhent.

Cynigiwyd y dylid gweld cynnydd o £0.20 yr wythnos mewn rhenti garej, sy'n golygu y byddai rhent wythnosol garej yn £10.03 a byddai rhent plot garej yn cynyddu £0.03 yr wythnos, sy'n golygu y byddai rhent plot yn £1.63 yr wythnos.

O ran taliadau gwasanaeth, cynigiwyd y dylid gohirio'r cynnydd terfynol a rhewi taliadau gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nod y dull gweithredu hwn fyddai gwarchod tenantiaid sydd o bosibl yn wynebu problemau ariannol o ganlyniad i'r pandemig, yn ogystal ag ymgymryd â mwy o waith i sicrhau bod y gwasanaethau hynny y telir taliadau gwasanaethau amdanynt ar hyn o bryd yn safonol ac yn cynnig gwerth am arian.

Yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, byddai'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) yn darparu cyfanswm o 71 o gartrefi newydd yn y Cyfrif Refeniw Tai a pharhau â'r gwaith i ddarparu Safon Ansawdd Tai Cymru a fyddai'n canolbwyntio'n bennaf ar wneud gwaith allanol ar doeau, ffenestri, drysau a gwaith amgylcheddol, a gwella parcio i denantiaid. Felly byddai'r rhaglenni adeiladau newydd ac adnewyddu yn gweld bron i £35m o fuddsoddiad yn y cartrefi presennol a chartrefi newydd.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn parhau i berfformio'n dda ar ôl blwyddyn heriol dros ben a diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r gweithlu am eu gwaith caled bob amser ac i'r tenantiaid am eu cefnogaeth barhaus.

Esboniodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) fod yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Ffederasiwn Tenantiaid ar 8 Chwefror a chafodd ei gefnogi'n llawn.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar gyfer 2021/22 fel y'i hamlinellir yn atodiadau'r adroddiad;
- (b) Cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent hyd at 0.69% (yn ogystal â hyd at £2);
- (c) Cymeradwyo'r cynnydd o £0.20 yr wythnos ar gyfer rhent garej gyda chynnydd o £0.03 yr wythnos ar gyfer plot garej.
- (ch) Cymeradwyo y dylid rhewi cynnydd yn y Tâl Gwasanaeth am flwyddyn; a
- (d) Chymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf HRA 2021/22 arfaethedig.

**93. ADRODDIAD AM WYBODAETH DDIWEDDARAF Y RHAGLEN TAI AC ADFYWIO STRATEGOL (SHARP)**

Cyflwynodd y Cyngorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglen adeiladu tai y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol ar gyfer eiddo Cymdeithasol, Rhent Fforddiadwy a Rhannu Ecwiti.

Roedd yr adroddiad hefyd yn sôn am newidiadau yn yr angen o ran tai, a'r sail resymegol dros adolygu ac addasu'r mathau o ddeiliadaeth ar gyfer datblygu eiddo yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad hefyd yn trafod y llwybrau cyflenwi ategol yr ymwneir â nhw ochr yn ochr â Chartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru, yn cynnwys caffael eiddo Adran 106, Pecynnau Dylunio ac Adeiladu ac argaeledd Cytundeb Fframwaith Adeiladu Tai Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Sir y Fflint oedd un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddechrau adeiladu tai cymdeithasol a fforddiadwy drwy ei Raglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) gyda'r nod o ddarparu hyd at 500 o eiddo Cymdeithasol ar Rent newydd gan y Cyngor ac eiddo newydd ar Rent Fforddiadwy dros gyfnod o bum mlynedd, ynghyd â nifer o flaenoriaethau strategol economaidd ac adfywio ehangach.

Mae'r Cyngor yn y broses o ddarparu 447 o gartrefi newydd yn Sir y Fflint, ac mae hefyd wedi darparu 148 o gartrefi newydd eraill y tu hwnt i SHARP, sy'n gyflawniad arwyddocaol ac mae wedi creu capasiti ychwanegol yn y farchnad dai.

Cafodd y rhaglenni adeiladu eu hysgogi o ganlyniad i'r angen o ran tai ac mae tua 1,900 o aelwydydd ar gofrestr Un Llwybr Mynediad at Dai ar hyn o bryd, gyda'r galw mwyaf mewn ardaloedd yn Yr Wyddgrug, Mynydd Isa, Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Queensferry a Shotton.

Tai Teg sy'n rheoli'r Gofrestr Tai Fforddiadwy ar ran y Cyngor ac ar hyn o bryd mae 120 o ymgeiswyr wedi cofrestru i brynu a 216 wedi cofrestru i rentu. Mae cyfanswm o 54 aelwyd ar y gofrestr tai arbenigol ar hyn bryd, gyda 47 ohonynt angen eiddo wedi'i addasu a saith ohonynt angen eiddo sydd â phedair neu ragor o ystafelloedd gwely.

Mewn perthynas â Chronfa Rhyddhau Tir Llywodraeth Cymru, bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn ei gais am gyllid gwerth cyfanswm o £213,000 yn ymwneud â dau safle yng Nghei Connah sy'n safleoedd segur ar hyn o bryd. Mae astudiaethau desg a gwaith ymchwiliad tir yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i weld a fyddai'r safleoedd hynny'n hyfyw.

Bu Tîm y Rhaglen Dai yn datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer adeiladu tai a byddant yn ceisio darparu tai newydd yn y dyfodol drwy'r cwmnïau adeiladu rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r broses dendro wedi ei chwblhau ac mae'r Cyngor yn cysylltu â chwmnïau ac yn trafod prosiectau sydd ar gweill yn y dyfodol.

Mae cyllideb flynyddol o £121,000 ar gyfer gwaith ymchwilio ac astudiaethau dichonoldeb yn y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol a bydd yr adroddiad yn ceisio defnyddio hwn er mwyn cynorthwyo i gyflwyno cynlluniau gan ddefnyddio'r fframwaith adeiladu newydd.

Gwnaeth y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) sylw ar nifer yr unedau y llwyddwyd i'w darparu hyd yma.

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad gan nodi mai canlyniad y bleidlais dai a gynhaliwyd yn 2012 oedd y canlyniad cywir, a bod yr adroddiad hwn yn brawf o hynny.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r cynnydd yn y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol;
- (b) Cymeradwyo'r defnydd o lwybrau cyflenwi ar gyfer cartrefi cymdeithasol newydd a chartrefi newydd ar rent fforddiadwy gan gynnwys Cytundeb Fframwaith Adeiladu Tai Gogledd a Chanolbarth Cymru; a
- (c) Chymeradwyo ailddyrrannu cyllideb o £121,000 ar gyfer gwaith ymchwilio cynlluniau a gwaith dichonoldeb i gefnogi llwybrau cyflenwi newydd.

## **94. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2019/20**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2019/20 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a oedd ynghlwm â'r adroddiad.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion cydraddoldeb a'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol dros bedair blynedd yn Ebrill 2016, i ddiwallu gofynion Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y'u hamlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Nod yr amcanion cydraddoldeb yw mynd i'r afael â'r materion mwyaf arwyddocaol a meysydd anghydraddoldeb sy'n wynebu pobl o grwpiau a ddiogelir (pobl sy'n rhannu un neu ragor o nodweddion a ddiogelir megis oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Esboniodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol fod y dyletswyddau penodol ar gyfer Cymru yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn galw am adroddiad blynyddol ar y cynnydd i ddiwallu Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a diwallu'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Roedd yr adroddiad yn amlygu cynnydd y Cyngor i roi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith a diwallu'r amcanion cydraddoldeb yn ystod 2019/20.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Jones, dywedodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol y byddai manylion o'r gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) a'r lluoedd arfog yn cael eu bwydo i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Gwnaeth y Cynghorydd Bithell sylw ar droseddau casineb a phwysleisiodd mor bwysig yw sicrhau bod llywodraethau cenedlaethol yn arwain ar sut i'w rheoli, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Sicrhau'r Cabinet y gwnaed cynnydd yn ystod y flwyddyn i ddiwallu'r dyletswyddau statudol; a
- (b) Chadarnhau'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019/20, cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar wefan y Cyngor.

**95. DATBLYGU UWCHGYNLLUN SHOTTON**

Cyflwynodd y Cynghorydd Butler yr adroddiad ac esboniodd mai Shotton yw un o'r trefi mwyaf yn Sir y Fflint, gyda chyfleusterau lleol da a chysylltiadau cludiant gwych i'r bws lleol a rhanbarthol, rheilffordd, llwybrau teithio llesol a rhwydweithiau priffyrdd. Mae yna hefyd lawer o ardaloedd o fewn y dref sydd â photensial sylweddol ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor ac Aelodau lleol wedi derbyn nifer gynyddol o bryderon a chwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion amgylcheddol eraill a fyddai, os na fydd unrhyw un yn mynd i'r afael â nhw, yn difetha'r ardal ac yn tanseilio ymdrechion lleol i gadw'r dref yn lân a thaclus a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn rhywle mae pobl yn dymuno byw a gweithio ynddo, yn ogystal ag ymweld ag ef.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny a manteisio i'r eithaf ar yr elfennau cadarnhaol a chyfleoedd posibl ar gyfer y dref, penderfynwyd sefydlu Grŵp Llywio Amlasiantaeth i ddatblygu a goruchwyllo'r gwaith i gyflwyno Uwchgyllun Shotton. Byddai'r cynllun yn dwyn y bobl gywir ynghyd gyda'r nod o adfywio a gwneud y gwelliannau angenrheidiol i ganol y dref a'r ardal gyfagos er mwyn helpu i sicrhau y gall y dref gwrdd â'i gwir botensial.

Croesawodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad a mynegodd ei gefnogaeth i uwchgyllun Shotton, sy'n gymuned allweddol yng nghanol Glannau Dyfrdwy gyda nifer o fanteision cludiant. Mae angen sicrhau bod gwaith yn mynd rhagddo yng nghanol trefi ac mewn cymunedau. Cyfeiriodd at y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i adfywio canol tref Treffynnon, y gwaith sydd ar y gweill ym Mwcle i adfywio'r dref honno a'r gwaith parhaus sy'n cael ei wneud ar uwchgyllun Y Fflint. Dywedodd fod angen i'r gwaith fod yn uchelgeisiol ac yn realistig ar yr un pryd. Roedd yr Aelodau lleol yn gwbl gefnogol i'r uwchgyllun.

Dull amlasiantaeth sydd i'r uwchgyllun a byddai'n fuddiol pe bae cynlluniau'n barod i gael eu rhoi ar waith pan fydd yr arian ar gael.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad, yn enwedig y gwaith amlasiantaeth a fyddai'n digwydd er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer y dref.

**PENDERFYNWYD:**



- (a) Cymeradwyo datblygu Uwchgynllun ar gyfer ardal Shotton;
- (b) Y dylid cyflwyno adroddiad arall i'r Cabinet i gael eu cymeradwyaeth i'r Uwchgynllun, i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2021.

**96. CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL AR GYFER CYNGOR SIR Y FFLINT 2019/20**

Cyflwynodd y Cynghorydd Mullin yr adroddiad ac esboniodd fod y Crynodeb Archwilio Blynyddol yn cymryd lle'r Adroddiad Gwella Blynyddol a'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a rheoleiddio sydd wedi ei wneud yn y Cyngor gan Archwilio Cymru ers i'r adroddiad diwethaf gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.

Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol: *“Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi diwallu ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio gwelliannau ac adrodd ar welliannau a chredir ei bod yn debygol y bydd yn diwallu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020/21”.*

Ychwanegodd y Prif Weithredwr na wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol yn ystod y flwyddyn.

Roedd nifer o gynigion newydd ar gyfer gwelliannau a chynigion datblygu'n codi o'r adolygiadau a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamed, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 14 Medi 2020, yn unol â'r terfyn amser statudol.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio ac ni wnaed unrhyw sylwadau penodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Bithell pam nad oedd sylw yn yr adroddiad am leoliadau y Tu Allan i'r Sir gan nad yw hon yn sefyllfa ariannol gynaliadwy. Soniwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y gellid helpu i godi'r materion a wynebir gyda Llywodraeth Cymru. Esboniodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar strategaeth ariannol dechnegol. Mae Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r pwysau sy'n gysylltiedig â lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a byddai'n gwneud ymholiadau ynghylch beth sydd ar eu cynllun gwaith i'r dyfodol i gael eu hystyried yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Rhoi sicrwydd i'r Cabinet ynghylch Adroddiad Cryno Archwilio Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer 2019/20.

**97. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 9)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf am fonitro cyllideb refeniw Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac yn cyflwyno'r sefyllfa yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol erbyn Mis 9. Roedd yr adroddiad yn rhagdybio beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai

popeth yn aros heb fawr o newid. Roedd hefyd yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar Gyllid Grant at Argyfwng.

Y sefyllfa a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau a/neu wella'r elw trwy gynllunio arbedion effeithlonrwydd a rheoli costau, oedd:

### **Cronfa'r Cyngor**

- Gwarged gweithredol o £0.372 miliwn (heb gynnwys effaith y dyfarniad cyflog a fyddai'n cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn), a oedd yn newid ffafriol o £0.102 miliwn ers ffigur y gwarged a adroddwyd ym Mis 8, sef £0.270 miliwn.
- Rhagwelid y byddai balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2021 yn £1.787 miliwn.

### **Y Cyfrif Refeniw Tai**

- Rhagwelid y byddai gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £1.641 miliwn yn is na'r gyllideb.
- Rhagwelid mai'r balans terfynol ar 31 Mawrth 2021 fydd £3.814 miliwn.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion am y sefyllfa a ragwelid, y sefyllfa a ragwelid yn ôl portffolio, newidiadau sylweddol ers Mis 8, risgiau agored, risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg, cyflawni arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn, ceisiadau i ddwyn arian ymlaen a chronfeydd wrth gefn a balansau.

Lefel Cronfa Wrth Gefn At Raid Cronfa'r Cyngor a ddygwyd ymlaen i 2020/21 yw £2.370 miliwn fel y manylir yn adroddiad sefyllfa derfynol 2019/20. Dyma'r swm sydd ar gael at ddibenion cyffredinol ar ôl neilltuo £3 miliwn ar gyfer Cyllid at Argyfwng. Gan ystyried hyn, a'r tanwariant presennol a ragwelir ar hyn o bryd, a dyraniadau a gytunwyd yn flaenorol, rhagwelid mai £1.787 miliwn fyddai'r balans ar y Gronfa Wrth Gefn at Raid ar 31 Mawrth 2021, fel y manylir yn Atodiad 4 yr adroddiad. Roedd hyn gan dybio bod y tanwariant o £0.372 miliwn a ragwelir yn cynyddu'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn.

Bydd swm o £2.377 miliwn yn weddill yn y gronfa £3 miliwn sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer argyfyngau, ar ôl caniatáu ar gyfer eitemau anghymwys y gwyddom amdanynt ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'r Panel Grantiau yn parhau i ystyried nifer o eitemau daliannol a hawliadau am Golledion Incwm. Felly, amcangyfrifir y bydd y swm terfynol sy'n weddill rhwng £1.5 miliwn a £2 miliwn.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r adroddiad cyffredinol a'r swm a ragamcanwyd ar gyfer arian at raid Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021;
- (b) Nodi lefel derfynol ddisgwyliedig y balansau ar y Cyfrif Refeniw Tai; a
- (c) Chymeradwyo'r ceisiadau i ddwyn arian ymlaen.

**98. MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2020/21 (MIS 9)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad a oedd yn crynhoi'r newidiadau a wnaed i Raglen Gyfalaf 2020/21 ers ei gosod ym mis Ionawr 2020 hyd at ddiwedd Mis 9, ynghyd â'r gwariant hyd yma a'r sefyllfa derfynol a ragwelid.

Gwelodd Gwelodd y Rhaglen Gyfalaf gynnydd net o £0.506 miliwn yn ystod y cyfnod a oedd yn cynnwys:

- Cynnydd net o £0.423 miliwn yng nghyllideb y rhaglen (Cronfa'r Cyngor £0.821 miliwn, y Cyfrif Refeniw Tai £0.398 miliwn);
- Swm Net i'w Ddwyn Ymlaen i 2021/22, wedi'i gymeradwyo ym Mis 6, o £0.083 miliwn;

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r adroddiad;
- (b) Cymeradwyo'r addasiadau dwyn ymlaen; a
- (c) Chymeradwyo ariannu cynlluniau o'r sefyllfa bresennol.

**99. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad a fydd yn cael ei argymhell i'r Cyngor i'w gymeradwyo. Cafodd yr adroddiad ei ystyried yn y Pwyllgor Archwilio ar 27 Ionawr 2021.

Rhodddwyd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ynghlwm wrth yr adroddiad ac amlinellwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn cyd-fynd â hyfforddiant a roddwyd i holl Aelodau'r Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys ar 9 Rhagfyr 2020.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22 yn cael ei hargymhell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

**100. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - POLISI 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Banks yr adroddiad ac esboniodd fod rhaid i awdurdodau lleol osod polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau sy'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol ar ddehongli'r telerau a gofynnir i awdurdodau baratoi datganiad blynyddol o'u polisi ar wneud isafswm darpariaeth.

Nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Polisi ar gyfer 2021/22. Byddai'r Polisi'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y canlynol yn cael ei argymhell i'r Cyngor Sir ar gyfer dyled heb ei thalu Cronfa'r Cyngor:
- Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw ym mlwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer cydbwyso gwariant cyfalaf sy'n ddyledus wedi ei gyllido o fenthyca cefnogol wedi ei osod ar 31 Mawrth 2017. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dal' dros 49 mlynedd.
  - Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2021/22 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf wedi ei ariannu gan fenthyca cefnogol o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dâl' dros y nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.
  - Opsiwn 3 (Dull Oes Ased) i'w ddefnyddio i gyfrifo'r Isafswm Darpariaeth Refeniw yn 2021/22 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf wedi ei ariannu gan fenthyca (darbodus) nad yw wedi ei gefnogi neu drefniadau credyd. Bydd yn cael ei gyfrifo yn ôl y dull 'blwydd-dâl' dros y nifer briodol o flynyddoedd, yn ddibynnol ar y cyfnod o amser y mae'r gwariant cyfalaf yn debygol o greu buddion.
- (b) Bod y canlynol yn cael ei gymeradwyo a'i argymhell i'r Cyngor Sir ar gyfer dyled heb ei thalu'r Cyfrif Refeniw Tai:
- Bod Opsiwn 2 (Dull Nawdd Cyfalaf Gofynnol) yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2021/22 ar gyfer yr holl wariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu gan ddyled.
- (c) Bod y canlynol yn cael ei gymeradwyo a'i argymhell i'r Cyngor Sir, bod Isafswm Darpariaeth Refeniw ar fenthyciadau gan y Cyngor i Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru i adeiladu tai fforddiadwy drwy'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) (sy'n gymwys fel gwariant cyfalaf mewn telerau cyfrifeg) fel a ganlyn:
- Ni wneir Isafswm Darpariaeth Refeniw yn ystod y cyfnod adeiladu (sy'n fyr) gan nad yw'r ased mewn defnydd ac nad oes unrhyw fudd o'i ddefnydd.
  - Unwaith mae'r asedau'n cael eu defnyddio, bydd ad-daliadau cyfalaf yn cael eu gwneud gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru. Bydd Isafswm Darpariaeth Refeniw'r Cyngor yn hafal i'r ad-daliadau a wnaed gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru. Bydd yr ad-daliadau a wneir gan Gartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael eu dosbarthu, yn nhermau cyfrifeg, fel derbyniadau cyfalaf, ac ni ellir

defnyddio'r rhain ddim ond i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled. Bydd yr ad-daliad cyfalaf/derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo i ad-dalu dyled, a dyma yw polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw y Cyngor i ad-dalu'r benthyciad.

## **101. ADOLYGU'R POLISI Cwynion Corfforaethol**

Cyflwynodd y Cyngorydd Mullin yr adroddiad ar y Polisi Pryderon a Chwynion newydd ar gyfer y Cyngor, yn seiliedig ar ddull trin cwynion ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys Polisi Rheoli Cyswllt â Chwsmeriaid newydd sy'n rhoi canllawiau i weithwyr ar sut i reoli ymddygiad annerbyniol gan gwsmeriaid.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid fod y Polisi Pryderon a Chwynion wedi bod yn ei le ers iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2011 ac ers hynny mae'r Ombwdsman wedi nodi bod ystod eang o arferion ymdrin â chwynion wedi ymddangos dros Gymru. Nod canllawiau newydd yr Ombwdsman yw sicrhau bod arferion yn debycach i'w gilydd, darparu safonau sylfaenol, iaith gyffredin a set o egwyddorion a fydd yn sail i'r modd yr ymdrinnir â chwynion ym mhob gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion arfaethedig yn cydymffurfio â'r datganiad egwyddorion ac mae wedi'i addasu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r diwylliant a'r ymddygiad yr hoffai Sir y Fflint ei hyrwyddo h.y. pwyslais ar drin pobl yn deg a chyda pharch, a gwranddo ar ein cydwbybod a gweithredu gyda gonestrwydd.

Y prif newidiadau yw:

- Gofynnir i achwynwyr ddweud wrth y Cyngor am eu pryderon o fewn chwe mis – gan ei bod yn well ymdrin â phryderon tra bo'r materion yn fyw yn y cof;
- Mwy o bwyslais ar ddysgu yn sgil cwynion er mwyn gwella prosesau a gweithdrefnau – bydd Prif Swyddogion yn derbyn adroddiadau perfformiad bob chwarter;
- Lle bydd angen newid (yn seiliedig ar ddatblygu tueddiadau) bydd gofyn i'r uwch-reolwr perthnasol ddatblygu cynllun gweithredu yn amlinellu beth fydd yn cael ei wneud, pwy fydd yn ei wneud a phryd; a
- Rhannu gwybodaeth ddienw am gwynion.

Bydd adroddiad am gwynion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio bob hanner blwyddyn ac yn flynyddol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Mae'r Polisi Rheoli Cyswllt â Chwsmeriaid yn darparu canllawiau clir i weithwyr ar sut i reoli'r nifer fechan o achosion lle mae gweithredoedd neu ymddygiad cwsmer yn herio ein gallu i ddarparu gwasanaeth effeithiol i bawb. Mae'r Polisi newydd yn berthnasol i bob cwsmer sydd wedi gofyn am wasanaeth neu wneud cwyn, neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar eu rhan. Mae'r

polisi'n ceisio diogelu gweithwyr rhag ymddygiad ymosodol, difriol neu annymunol, a gofynion a chyndynrwydd afresymol.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Banks, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid fod y cyfryngau cymdeithasol yn faes anodd i'w reoli. Rhoddwyd cyngor i nifer fechan o bobl y credwyd bod eu hymddygiad yn annerbyniol a bydd mwy o waith yn cael ei wneud i benderfynu pa fesurau eraill y gellid eu cyflwyno i gefnogi a diogelu gweithwyr.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Polisi Pryderon a Chwynion i'w roi ar waith ar 1 Ebrill 2021;
- (b) Cymeradwyo'r Polisi Rheoli Cyswllt â Chwsmeriaid i'w roi ar waith ar 1 Ebrill 2021; a
- (c) Chefnogi'r amserlen adrodd ar berfformiad.

## **102. YMARFER PWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

### **Tai ac Asedau**

- **Trosglwyddo Ased Cymunedol – Leadmills, Heol y Brenin, Yr Wyddgrug**  
Trosglwyddo Leadmills, Heol y Brenin, Yr Wyddgrug a'r tir cyfagos sydd o fewn prydles yr ased.
- **Trosglwyddo Ased Cymunedol - Clwb Rygbi'r Wyddgrug, Ffordd Caer, Yr Wyddgrug**  
Trosglwyddo Clwb Rygbi'r Wyddgrug, Ffordd Caer, Yr Wyddgrug.
- **Prosiect Tai â Chymorth Sunraye, Local Solutions**  
Ymestyn contract Prosiect Tai â Chymorth Sunraye, a ddarperir gan Local Solutions.
- **Tai â Chymorth i Deuluoedd Plas Bellin, Local Solutions**  
Ymestyn contract Tai â Chymorth i Deuluoedd Plas Bellin, drwy Local Solutions.
- **Tai â Chymorth Greenbank Villas, Clwyd Alyn**  
Ymestyn contract Tai â Chymorth Greenbank Villas, Clwyd Alyn.
- **Lloches Cymorth i Ferched Clwyd Alyn**  
Ymestyn darpariaeth y gwasanaeth presennol gyda Chymorth i Ferched Clwyd Alyn.
- **Cefnogaeth yn ôl yr Angen Shelter Cymru**  
Ymestyn contract ar gyfer y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Shelter Cymru ar gyfer Cefnogaeth yn ôl yr Angen.

- **Tai â Chymorth Llys Emlyn Williams, Clwyd Alyn**  
Ymestyn contract ar gyfer Tai â Chymorth Llys Emlyn Williams, a ddarperir gan Clwyd Alyn.
- **Tai â Chymorth Canolfan Deulu Erw Groes, Clwyd Alyn**  
Ymestyn contract ar gyfer Tai â Chymorth Canolfan Deulu Erw Groes, a ddarperir gan Clwyd Alyn.
- **Cymorth yn ôl yr Angen at Gam-drin Domestig Aster Hope**  
Ymestyn contract Cymorth yn ôl yr Angen at Gam-drin Domestig Aster Hope
- **Datgan Tir Nad Oes ei Angen i Hwyluso Estyniad i'r Adeilad a ddefnyddir gan Grŵp y Sgowtiaid, Tuscan Way, Cei Connah**  
Datgan nad oes angen darn bychan o dir o fewn ardal agored er mwyn galluogi'r Sgowtiaid i adeiladu estyniad ar adeilad presennol y Sgowtiaid.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**103. CYNLLUN BUSNES CARTREFI GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU 2020/2049**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hughes yr adroddiad a Chynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2020/2049.

Mae'r Cynllun Busnes yn nodi elfennau allweddol o Strategaeth Ddatblygu arfaethedig y cwmni i gynyddu'r nifer o Eiddo Rhent Fforddiadwy i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf i unedau.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo Cynllun Busnes Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru 2020/2049.

**104. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.15 p.m.)

.....  
**Y Cadeirydd**

